# Moderneiddio Ysgolion Cynradd Conwy

Gorffennaf '17



# Ysgol Ardal Newydd Caerhun a Threfriw

## Penodwyd pennaeth i ysgol ardal newydd Caerhun a Threfriw

Mae'r Gwasanaethau Addysg yn falch o allu cyhoeddi fod Karen Owen, pennaeth presennol Ysgol Tal y Bont, wedi ei phenodi yn bennaeth newydd ysgol ardal newydd Caerhun a Threfriw. Bydd yr ysgol ardal newydd 120 disgybl yn cael ei hadeiladu gan K&C Construction ar safle presennol Ysgol Dolgarrog.

O ganlyniad, bydd disgyblion presennol Ysgol Dolgarrog yn symud i safle dros dro gerllaw yn ystod tymor yr hydref 2017. Mae'r Awdurdod Lleol yn aros am asesiad pellach o'r safle dros dro gan ecolegydd, yn dilyn darganfod wyau adar ychydig wythnosau yn ôl sydd wedi oedi'r broses o adeiladu safle dros dro ac o ganlyniad ad-leoli Ysgol Dolgarrog.

Dros yr haf, disgwylir i'r gwaith ar y tŷ ystlumod newydd ddechrau ar ôl darganfod eu bod yn y to yn ysgol bresennol Ysgol Dolgarrog. I gynorthwyo gyda'u hymfudiad bydd coetrych hefyd yn cael ei greu yn arwain at dŷ'r ystlumod.

Mae'r corff llywodraethol dros dro wedi bod yn cyfarfod yn aml trwy gydol y tymor diwethaf, ac fel rhan o'u gwaith parhaus yn yr hydref, byddant yn edrych am enw a gwisg newydd i'r ysgol.

